



## **BWRDD DIOGELU PLANT GOGLEDD CYMRU**

### **CYNLLUN BUSNES BLYNYDDOL**

**2018/19**

## **Cyflwyniad**

Mae'n bleser gen i gyflwyno cynllun gwaith blynyddol Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru (BDPGC). Sefydlwyd Byrddau Diogelu Rhanbarthol (mae BDPGC yn un ohonynt) o dan Rhan 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru yn gwasanaethu cymunedau Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam.

Amcanion y Bwrdd Diogelu Plant fel y nodir o dan Rhan 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yw:

a) I amddiffyn plant yn ei ardal sy'n dioddef, neu sydd mewn perygl o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu fathau eraill o niwed, a

(b) I atal plant yn ei ardal rhag bod mewn perygl o gamdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed.

Nod BDPGC yw amddiffyn plant ar draws y rhanbarth trwy godi ymwybyddiaeth o faterion diogelu plant ymysg y cyhoedd. Mae hefyd yn darparu cymorth ac arweiniad i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn ein cymunedau lleol sydd yn darparu ystod o wasanaethau gwirfoddol a statudol. Caiff Oedolion mewn Perygl eu hamddiffyn trwy Fwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarth Gogledd Cymru (BDOGC).

**Jenny Williams**

**Cadeirydd Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru**

## Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru Datganiad Cenhadaeth

Mae Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru wedi mabwysiadu ymagwedd ADP yn ei gynllunio busnes, sef Atal, Diogelu a Pharatoi sydd wedi'u cynnwys yn nhri datganiad cenhadaeth y bwrdd.

1. Bydd Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru'n **ATAL** plant yn ei ardal rhag bod mewn perygl o gamdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed.
2. Bydd Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru'n **DIOGELU** plant yn ei ardal sy'n profi, neu mewn perygl o gamdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed.
3. Bydd Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru yn **BAROD** i fod yn bennaf gyfrifol am herio asiantaethau i sicrhau bod mesurau effeithiol yn eu lle i **DDIOGELU** ac **ATAL**

Mewn cysylltiad â Cham-fanteisio'n Rhywiol a Throseddol ar Blant mae pedwaredd ymagwedd wedi'i nodi - **DILYN**.

## **MEYSYDD BLAENORIAETH AR GYFER 2018/19**

**Tri maes blaenoriaeth trosfwaol Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru ar gyfer 2018/ 19 ydi:**

<b>Blaenoriaeth 1</b>	<b>Bydd y BDPGC gyda'r partneriaid yn gweithio'n rhagweithiol mewn partneriaeth i gadw plant yn ddiogel rhag camfanteisio rhywiol yng Ngogledd Cymru</b>
<b>Blaenoriaeth 2</b>	<b>Gwella ymatebion aml-asiantaeth i blant sydd yn arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol</b>
<b>Blaenoriaeth 3</b>	<b>Gwella profiadau a chanlyniadau ar gyfer plant sydd wedi byw, neu sy'n byw gyda cham-drin domestig</b>

## Prif Becynnau Gwaith i gyflawni Blaenoriaeth 1

<b>Canlyniad Trosfwaol: Bydd y BDPGC gyda'r partneriaid yn gweithio'n rhagweithiol mewn partneriaeth i gadw plant yn ddiogel rhag cam-fanteisio'n rhywiol a throseddol yng Ngogledd Cymru.</b>	
<b>ATAL</b>	<b>Ei gwneud yn fwy anodd i fanteisio ar blant trwy:</b> 1. Weithredu'r camau gweithredu "ataliol" a nodwyd yng nghynllun gweithredu Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant Gogledd Cymru a Chymru Gyfan sy'n ymwneud â gwybodaeth/cyngor a chodi ymwybyddiaeth
<b>DIOGELU</b>	<b>Adnabod ac Amddiffyn plant sydd mewn perygl trwy:</b> 2. Weithredu'r camau gweithredu "diogelu" a nodwyd yng nghynllun gweithredu Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant Gogledd Cymru a Chymru Gyfan sy'n ymwneud ag adnabod plentyn mewn perygl o gam-fanteisio trwy gydweithio a rhannu gwybodaeth
<b>PARATOI</b>	<b>Bod â gweithlu a chymuned sy'n barod i fynd i'r afael â Cham-fanteisio trwy:</b> 3. Weithredu'r camau gweithredu "paratoi" a nodwyd yng nghynllun gweithredu Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant Gogledd Cymru a Chymru Gyfan sy'n ymwneud â gweithredu ymagwedd gweithlu a hyfforddiant tuag at Gam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant
<b>DILYN</b>	<b>Adnabod troseddwr a gweithgareddau a Tharfu ac Atal eu gweithgareddau trwy:</b> 4. Weithredu'r camau gweithredu "dilyn" a nodwyd yng nghynllun gweithredu Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant Gogledd Cymru a Chymru Gyfan sy'n ymwneud ag adnabod "mannau problemus a dod â throseddwr o flaen eu gwell"

## Sut y byddwn yn mesur cynnydd mewn perthynas â Blaenoriaeth 1

<b>Canlyniad 1: Bydd BDPGC gyda'r partneriaid yn gweithio'n rhagweithiol mewn partneriaeth i gadw plant yn ddiogel rhag cam-fanteisio'n rhywiol a throseddol yng Ngogledd Cymru.</b>					
<b>Cyf</b>	<b>Camau Gweithredu</b>	<b>Adnoddau ac Arweinydd</b>	<b>Mesurau</b>	<b>Canlyniadau</b>	<b>Cynnydd</b>
<b>1a.</b>	Rhoi Cynllun Gweithredu BDPGC a CSE Cenedlaethol ar waith	Grŵp Gweithredol ar Gam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant	% y camau gweithredu a gwblhawyd yng nghynllun gweithredu Cenedlaethol BDPGC a CSE yn ystod blwyddyn 2018/19	<b>Bydd BDPGC gyda'r partneriaid yn gweithio'n rhagweithiol mewn partneriaeth i gadw plant yn ddiogel rhag cam-fanteisio rhywiol a throseddol yng Ngogledd Cymru</b>	

## Prif Becynnau Gwaith i gyflawni Blaenoriaeth 2

<b>Canlyniad Trosfwaol: Gwella ymatebion aml-asiantaeth i blant sydd yn arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol</b>	
<b>ATAL</b>	<b>Lleihau achosion o Ymddygiad Rhywiol Niweidiol trwy:</b> 1. Weithredu'r camau a nodwyd yn Archwiliad Rhanbarthol ar Ymddygiad Rhywiol Niweidiol y NSPCC.
<b>DIOGELU</b>	<b>Diogelu plant sydd yn ddioddefwyr a'r troseddwyr trwy:</b> 1. Sicrhau nad yw'r plentyn neu berson ifanc yn cael ei labelu ar ôl cael ei g/chanfod yn arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol, ond eto fe ddylent gael eu dal yn gyfrifol.
<b>PARATOI</b>	<b>Rhieni / Gofalwyr a Gweithwyr Proffesiynol:</b> 1. Yn derbyn hyfforddiant a chyngor o safon uchel am ddatblygiad ymddygiad rhywiol arferol a sut i ymateb i ymddygiad rhywiol problemus.

## Sut y byddwn yn mesur cynnydd mewn perthynas â Blaenoriaeth 2

<b>Canlyniad 2: Gwella ymatebion aml-asiantaeth i blant sydd yn arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol (YRhN)</b>					
<b>Cyf</b>	<b>Camau Gweithredu</b>	<b>Adnoddau ac Arweinydd</b>	<b>Mesurau</b>	<b>Canlyniadau</b>	<b>Cynnydd</b>
<b>2a.</b>	Gweithredu'r casgliadau yn archwiliad rhanbarthol Ymddygiad Rhywiol Niweidiol yr NSPCC a llunio'r cynllun gweithredu rhanbarthol	BDPGC	% y camau gweithredu a gwblhawyd yng nghynllun gweithredu rhanbarthol YRhN ystod blwyddyn 2018/19	<b>BDPGC yn hyderus fod plant a phobl ifanc sydd yn arddangos YRhN yn cael eu cefnogi'n iawn o ran eu YRhN a bod yr achosion sylfaenol yn cael eu deall.</b>	



### Prif Becynnau Gwaith i gyflawni Blaenoriaeth 3

<b>Canlyniad Trosfwaol: Gwella profiadau a chanlyniadau ar gyfer plant sydd wedi byw, neu sy'n byw gyda cham-drin domestig</b>	
<b>ATAL</b>	<b>Bydd BDPGC yn sicrhau bod pob asiantaeth yn unigol ac ar y cyd yn effeithiol wrth atal cam-drin domestig trwy:</b> <ol style="list-style-type: none"><li>1. Sicrhau y cydymffurfir â gofynion Deddf Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.</li></ol>
<b>DIOGELU</b>	<b>Gwella'r broses o adnabod, annog datgeliadau a sicrhau ymateb addas yn syth trwy:</b> <ol style="list-style-type: none"><li>1. Baratoi gweithwyr proffesiynol i sylwi ar arwyddion ac annog datgeliadau o gam-drin domestig</li></ol>
<b>PARATOI</b>	<b>Bydd BDPGC yn deall graddau Cam-drin Domestig o fewn teuluoedd ar draws Gogledd Cymru yn well trwy:</b> <ol style="list-style-type: none"><li>1. Weithio gyda Thîm Rhanbarthol Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i wella gwaith o ddadansoddi data</li></ol>

### Sut y byddwn yn mesur cynnydd mewn perthynas â Blaenoriaeth 3

<b>Canlyniad 3: Gwella profiadau a chanlyniadau ar gyfer plant sydd wedi byw, neu sy'n byw gyda cham-drin domestig</b>					
<b>Cyf</b>	<b>Camau Gweithredu</b>	<b>Adnoddau ac Arweinydd</b>	<b>Mesurau</b>	<b>Canlyniadau</b>	<b>Cynnydd</b>
<b>3a.</b>	Bydd BDPGC yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau y cydymffurfir â gofynion Deddf Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.	BDPGC/ Rhiannon Edwards, Cynghorydd VAWDASV Rhanbarthol	Gweithredu Strategaeth VAWDASV Gogledd Cymru	<b>Gwella profiadau a chanlyniadau ar gyfer plant sydd wedi byw, neu sy'n byw gyda cham-drin domestig</b>	

## **Crynodeb o Welliannau ar gyfer BDPGC 2018/19**

Dyma amcanion gwella Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru. Bydd BDPGC yn canolbwyntio ar yr amcanion hyn ynghyd â'i flaenoriaethau strategol a'i fusnes craidd. Fe fydd ffocws ar 4 maes o welliant:

1. Mae BDPGC ac is-grwpiau yn parhau i esblygu i sicrhau effeithiolrwydd
2. Sut mae BDPGC yn cydweithio gyda Byrddau, Partneriaethau a phobl/cyrff eraill yn ei weithgareddau
3. Sut bydd BDPGC yn gwrando ar lais y plentyn trwy ymgysylltu â phlant a phobl ifanc
4. Sut bydd BDPGC yn gweithredu'r hyn a ddysgwyd o Adolygiadau Ymarfer Plant

## Gwelliant 1: Mae BDPGC ac is-grwpiau yn parhau i esblygu i sicrhau effeithiolrwydd

### Crynodeb o'r Gwelliannau Gofynnol:

1. Gwell atebolrwydd o aelodau BDPGC a'r gallu i herio'n effeithiol
2. Sicrhau ymgysylltiad gan asiantaethau yng ngwaith y Bwrdd a'r is-grwpiau a sicrhau sefydlogrwydd o gadeirio trefniadau ar gyfer yr is-grwpiau

Meysydd Blaenoriaeth	Beth sydd angen gwella?	Beth ydyn ni angen ei wneud?	Pwy sy'n gyfrifol?	Sut fyddwn ni'n mesur llwyddiant?
Mae gan aelodau BDPGC gyfrifoldeb i herio eraill nid yn unig ar eu cyfraniad i'r bwrdd, ond ar ansawdd ar arfer diogelu asiantaethau aelodau. Sefydlu a chynnal arfer her cyfoedion.	Mae BDPGC angen mireinio ymhellach a gwella graddau her a nodi cyfrifoldeb aelodau i herio a dal y naill a'r llall i gyfrif	Datblygu system herio gadarn, diwylliant derbyn ac ymateb yn gadarnhaol.	BDPGC  Rheolwr Busnes BDPGC	Adroddiadau cyfraniad partneriaid i'r Bwrdd.  Datblygu Fframwaith Mesur Perfformiad BDPGC.  Defnyddio Aelodau Annibynnol fel 'cyfeillion beirniadol'.  Ceisiadau am wybodaeth adran 137.
Sicrhau ymgysylltiad gan asiantaethau yng ngwaith y Bwrdd a'r is-grwpiau a sicrhau sefydlogrwydd o gadeirio trefniadau ar gyfer yr is-grwpiau.	Aelodau penodedig priodol sy'n gallu mynychu a chyfrannu'n gyson.	Monitro cynnydd a'i uwchgyfeirio i'r Bwrdd os oes angen.	BDPGC Rheolwr Busnes a'r Uned Fusnes	Wedi'i adlewyrchu yn adroddiadau asiantaethau unigol ac yn Adroddiad Blynyddol y Bwrdd.  Mynychu a Chyfrannu i Fusnes y Bwrdd.

<b>Meysydd Blaenoriaeth</b>	<b>Beth sydd angen gwella?</b>	<b>Beth ydyn ni angen ei wneud?</b>	<b>Pwy sy'n gyfrifol?</b>	<b>Sut fyddwn ni'n mesur llwyddiant?</b>
	Cynnal momentwm a symud ymlaen â chynlluniau gwaith priodol.	Cyfarfodydd rhwng cadeiryddion is-grwpiau bob chwarter.		Cynhyrchiant y grwpiau.

**Gwelliant 2: Sut mae BDPGC yn cydweithio gyda Byrddau, Partneriaethau a phobl/cyrff eraill yn ei weithgareddau**

**Crynodeb o'r Gwelliant Gofynnol:**

1. Datblygu trefniadau rhwng partneriaethau statudol ac anstatudol lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i sicrhau diogelu, llywodraethu ac atebolrwydd
2. Gwella cysylltiadau a threfniadau gwaith gyda Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru i wella dull cyfannol ar gyfer diogelu unigolion
3. Sefydlu cysylltiadau gyda Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a gwella cysylltiadau gyda Bwrdd Diogelu rhanbarthol arall i rannu arfer da, meysydd ar gyfer dysgu a gwella a chyfrannu at ddulliau diogelu cyson ar gyfer diogelu ar draws Cymru

<b>Meysydd Blaenoriaeth</b>	<b>Beth sydd angen gwella</b>	<b>Beth ydyn ni angen ei wneud</b>	<b>Pwy sy'n gyfrifol</b>	<b>Sut fyddwn ni'n mesur llwyddiant</b>
Datblygu trefniadau rhwng partneriaethau statudol ac anstatudol lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i sicrhau diogelu, llywodraethu ac atebolrwydd	Mae BDPGC yn fwrdd statudol a dylid ceisio sicrwydd ar waith yr holl bartneriaethau a grwpiau eraill.	Sefydlu llinellau atebolrwydd ac adrodd clir rhwng y Bwrdd Diogelu, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Byrddau Cynllunio Ardal, Byrddau/Partneriaethau Cymunedau mwy Diogel, Cydlynu Masnachu Dynol	Cadeirydd /Rheolwr Busnes	Darparu tystiolaeth i'r Bwrdd Diogelu am effeithiolrwydd rhaglen waith partneriaethau eraill.

<b>Meysydd Blaenoriaeth</b>	<b>Beth sydd angen gwella</b>	<b>Beth ydyn ni angen ei wneud</b>	<b>Pwy sy'n gyfrifol</b>	<b>Sut fyddwn ni'n mesur llwyddiant</b>
Gwella cysylltiadau a threfniadau gwaith gyda Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru i wella dull cyfannol ar gyfer diogelu unigolion.	Cylch gorchwyl y Byrddau i gael eu halinio.  Dylid darparu adroddiadau ar y prif bwyntiau a diweddariadau gan bob bwrdd		Rheolwr Busnes	Mwy o blethu yn arwain at well canlyniadau i unigolion sydd angen gofal a chefnogaeth ac sydd angen eu hamddiffyn.
Sefydlu cysylltiadau gyda Byrddau Diogelu Rhanbarthol a Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol i rannu arfer da, meysydd ar gyfer dysgu a gwella a chyfrannu at ddulliau diogelu cyson ar gyfer diogelu ar draws Cymru.	Unedau Busnes ar draws Cymru yn cwrdd yn chwarterol.  Rhannu dogfennau a thempledi ac arfer da ar draws Cymru	Gweithio tuag at ddatblygu fframwaith rhannu dogfennaeth ac adrodd	Rheolwr Busnes a Chydlynnydd Busnes	Trefniadau adrodd cadarn.  Cydymffurfedd deddfwriaethol a rheolaethol.  Llwyddiant Wythnos Genedlaethol Diogelu

### Gwelliant 3: Sut bydd BDPGC yn gwrando ar lais y plentyn trwy ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

#### Crynodeb o'r Gwelliannau Gofynnol:

1. Datblygu gwefan BDPGC
2. Datblygu Bwrdd Ieuencid Rhithwir
3. Cynyddu ymgysylltiad a chyfranogiad gyda phlant a phobl ifanc

Meysydd Blaenoriaeth	Beth sydd angen gwella	Beth ydyn ni angen ei wneud	Pwy sy'n gyfrifol	Sut fyddwn ni'n mesur llwyddiant
Datblygu gwefan BDPGC	Faint o wybodaeth sydd i blant a phobl ifanc sydd ar wefan BDPGC, ac ansawdd y wybodaeth honno.	Creu cynnwys a fydd yn addysgiadol ac yn addas o ran oedran trwy ymgysylltu â phlant a phobl ifanc.	Cydlynnydd Busnes	Adborth gan blant a phobl ifanc. Nifer o ymweliadau i'r wefan.
Datblygu Bwrdd Diogelu Plant Rhithwir i Ieuencid	Nid oes yna Fwrdd Diogelu Ieuencid Rhithwir ar hyn o bryd – rhaid ei ddatblygu.	Creu Bwrdd Diogelu Ieuencid Rhithwir.	Cydlynnydd Busnes	Nifer o blant a phobl ifanc sydd yn cyfrannu at waith y Bwrdd. Natur y cyfranogiad. Gwerthuso gweithgareddau.
Cynyddu ymgysylltiad a chyfranogiad gyda phlant a phobl ifanc	Ymgysylltu a chyfranogi gyda phlant a phobl ifanc	Bydd y Cydlynnydd Busnes yn edrych ar ymgysylltu â chyfranogi gyda phlant a phobl	Cydlynnydd Busnes	Nifer o blant a phobl ifanc sydd yn cyfrannu at waith y Bwrdd. Natur y cyfranogiad. Gwerthuso gweithgareddau.



<b>Meysydd Blaenoriaeth</b>	<b>Beth sydd angen gwella</b>	<b>Beth ydyn ni angen ei wneud</b>	<b>Pwy sy'n gyfrifol</b>	<b>Sut fyddwn ni'n mesur llwyddiant</b>
		ifanc fel blaenoriaeth.  Casglu barn plant a phobl ifanc yn awtomatig.		

## Gwelliant 4: Sut mae'r BDPGC yn dosbarthu ac yn dysgu o Adolygiadau Arfer Plant

### Crynodeb o'r Gwelliannau Gofynnol:

1. Sicrhau bod gwersi a ddysgwyd o'r AAP yn cael eu dosbarthu i'r asiantaethau
2. Sicrwydd bod arfer a pholisïau wedi newid mewn asiantaethau o ganlyniad i'r APP
3. Rhannu themâu sy'n dod i'r amlwg a'r gwersi a ddysgwyd yn well ar draws Cymru

Meysydd Blaenoriaeth	Lle rydem ni arni yn awr	Beth sydd angen gwella	Beth ydyn ni angen ei wneud	Pwy sy'n gyfrifol	Sut fyddwn ni'n mesur llwyddiant
Sicrhau bod gwersi a ddysgwyd o'r AAP yn cael eu dosbarthu i'r asiantaethau.	Panel AAP i adolygu a monitro'r cynlluniau gweithredu  Cyhoeddi'r AAP ar y wefan.	Rhaid dosbarthu Adroddiadau AAP o fewn asiantaethau a'u defnyddio fel adnodd wrth oruchwylio grŵp  Asiantaethau yn cyfeirio ymarferwyr at y wefan.  Plethu clir rhwng yr AAP, Polisïau a Gweithdrefnau ac is-grwpiau Gweithlu a	Rhaid cyflwyno adroddiad thematig i'r BDPGC bob blwyddyn mewn cysylltiad â'r gwersi a ddysgwyd, ond hefyd dylid cynnwys ystyriaeth a roddwyd i themâu sy'n dod i'r amlwg o adroddiadau achoson eraill ar gyfer yr un cyfnod.	Cadeirydd Grŵp AAP Rheolwr Busnes	% y Cynlluniau Gweithredu Adolygiadau Arfer Plant sydd wedi'u cwblhau o fewn 12 mis ar ôl i'r BDPGC gymeradwyo'r adroddiad a chynllun gweithredu  Cyflwyno Adroddiad Thematig i'r Bwrdd

<b>Meysydd Blaenoriaeth</b>	<b>Lle rydem ni arni yn awr</b>	<b>Beth sydd angen gwella</b>	<b>Beth ydyn ni angen ei wneud</b>	<b>Pwy sy'n gyfrifol</b>	<b>Sut fyddwn ni'n mesur llwyddiant</b>
		Hyfforddiant er mwyn symud ymlaen â'r meysydd blaenoriaeth a nodwyd.	Sicrhau bod y wefan yn cael ei diweddarau'n rheolaidd.		
Sicrwydd bod arfer a pholisïau wedi newid mewn asiantaethau o ganlyniad i'r Adolygiadau Arfer Plant	Grwpiau Cyflawni Ymarfer Lleol i gynnal archwiliadau thema ar brif faterion a nodwyd	<p>Gostyngiad yn y themâu o'r ddwy flynedd ddiwethaf o Adolygiadau Arfer Plant.</p> <p>Mae'r prif themâu dros y ddwy flynedd diwethaf yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Esgeulustod</li> <li>➤ Cydymffurfia d cudd</li> </ul>	Gweithredu'r hyn a ddysgwyd o Adolygiadau	Grwpiau Cyflawni Ymarfer Lleol	Adborth o'r Archwiliad yn nodi arfer gwell

<b>Meysydd Blaenoriaeth</b>	<b>Lle rydem ni arni yn awr</b>	<b>Beth sydd angen gwella</b>	<b>Beth ydyn ni angen ei wneud</b>	<b>Pwy sy'n gyfrifol</b>	<b>Sut fyddwn ni'n mesur llwyddiant</b>
<p>Rhannu themâu sy'n dod i'r amlwg a'r gwersi a ddysgwyd yn well ar draws Cymru</p>	<p>Dylai argymhellion Adolygiadau Arfer Plant dynnu sylw at ddysgu ar lefel genedlaethol.</p> <p>Dylid defnyddio cyfarfodydd LIC a sefydlwyd yn ddiweddar gyda Chadeiryddion Byrddau.</p> <p>Mae cyfarfod chwarterol gyda rheolwyr busnes rhanbarthol yn hwyluso hyn.</p>	<p>Sicrhau bod yr hyn a ddysgwyd o Adolygiad Dynladdiad Domestig a Digwyddiadau Anffodus Difrifol yn cael ei rannu gyda BDPGC</p>	<p>Gweithio mewn partneriaeth â'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol i ddysgu o Adolygiad CASCADE Cenedlaethol</p>	<p>BDPGC</p>	<p>Mae gan BDPGC fwy o drosolwg o brif themâu sy'n dod i'r amlwg megis Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a Llinellau Sirol</p>

**AELODAETH BDPGC**

<b>Aelod</b>	<b>Asiantaeth</b>
Jenny Williams (Cadeirydd)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Judith Magaw (Is-gadeirydd)	Cwmni Adsefydlu Cymunedol
Eleri Lloyd Burns	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Andy Jones	Gwasanaeth Prawf Gogledd Cymru
Audrey Somerton Edwards	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Awen Morwena Edwards	Cyngor Gwynedd
Caroline Turner	Cyngor Sir Ynys Môn
Ceri Williams (Y Gyfraith)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Clare Field	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Craig MacLeod	Cyngor Sir y Fflint
David Beard	Barnardos
Donna Dickenson	Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid
Fon Roberts	Cyngor Sir Ynys Môn
Gareth Evans	Heddlu Gogledd Cymru
Gill Harris	BIPBC
Karen Evans	Cyngor Sir Ddinbych
Kate Devonport	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Lindsay Groves	BIPBC
Marian Parry Hughes	Cyngor Gwynedd
Mark Parry	NSPCC
Meinir Williams-Jones	Barnardos
Michelle Denwood	BIPBC
Neil Ayling	Cyngor Sir y Fflint
Nicola Stubbins	Cyngor Sir Ddinbych
Nikki Harvey	Ymddiriedolaeth Gig Gwasanaeth Ambiwlans Cymru

### Incwm/Gwariant estynedig hyd at ddiwedd Mawrth 2018

	Cyfanswm hyd at ddiwedd Rhag 17	Cyfanswm Rhagolwg Amcangyfrifedig hyd at ddiwedd Mawrth 2018
<b>Staffio</b>		
Staffio	£95,901.55.	£123,275.10
Teithio	£2,496.11	£2,300.00
<b>Is-gyfanswm</b>	<b>£98,397.66</b>	<b>£125,575.10</b>
<b>Cyflenwadau a Gwasanaethau</b>		
<b>Is-gyfanswm</b>	<b>£53,173.26</b>	<b>£55,173.26</b>
<b>Meysydd Gwaith</b>		
<b>Is-gyfanswm</b>	<b>£6,500.00</b>	<b>£8,500.00</b>
<b>IS-GYFANSWM STAFF, COSTAU A CHOSTAU CYNLLUNIAU A DREFNWD</b>	<b>£158,070.92</b>	<b>£189,248.36</b>
<b>FFRWD ARIAN</b>		
Cyfraniadau Partner 2017-2018 -£218,568.53		
Cyfraniad Llywodraeth Cymru at Wythnos Diogelu -£2,000.00		
<b>CYFANSWM -£220,568.53</b>		<b>£189,248.36</b>